

# Ysgolion Ardderchog:

# Gweledigaeth i ysgolion yng Nghymru yn ystod yr 21ain ganrif

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2002. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd neu fesul rhan at ddibenion addysgol anfasnachol cyhyd ag y bod yr holl ddyfyniadau'n cael eu hatgynhyrchu air am air heb eu haddasu, a'ch bod yn nodi'r ffynhonnell a'r dyddiad.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW

Ffôn: 029 20 446446

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad** | **1** |
| Moderneiddio ysgolion | 1 |
| **2. Yr ysgol fel cymuned sy’n dysgu** | **5** |
| Canolbwyntio ar ddysgu | 5 |
| Cydbwyso’r cwricwlwm | 6 |
| Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) | 7 |
| Y cwricwlwm amgen | 8 |
| Dysgu y tu allan i’r ysgol | 9 |
| Chwaraeon, y celfyddydau a gweithgareddau gwirfoddol | 10 |
| Dysgu ac ymddygiad | 11 |
| Cau’r bwlch rhwng y ddau ryw | 12 |
| Cymuned amlieithog | 12 |
| Cynhwysedd a chynnig cymorth | 13 |
| Dysgu gydol oes a byd gwaith | 14 |
| **3. Yr ysgol yn y gymuned** | **15** |
| Addysg a gofal | 15 |
| Dysgu yn y teulu | 15 |
| Gweithio gydag ysgolion partner | 16 |
| Dulliau gweithredu aml-asiantaeth | 17 |
| Y gymuned fel adnodd | 18 |
| Ysgol ar gyfer y gymuned | 19 |
| **4. Yr ysgol fel cymuned hunan-feirniadol** | **20** |
| Arwain:  gweledigaeth a gwerthoedd | 20 |
| Yr ysgol hunan-gyfeiriol | 21 |
| Adolygu adnoddau dynol | 22 |
| Hunan-arfarnu | 23 |
| Gwrando ar blant a phobl ifanc | 23 |
| Hunan-asesu ac arolygu yn y dyfodol | 24 |

**5. Torri'r patrwm** **25**

Trefn y dydd 25
Trefnu, strwythuro a darparu adnoddau ar gyfer y flwyddyn ysgol 26
Dysgu ffurfiol ac anffurfiol 26
Gweithio gyda phartneriaid 27
Arwain a rheoli ysgolion 27
Rhagoriaeth i bob dysgwr 28

## 1. Cyflwyniad

Fel rhan o'i gylch gorchwyl a bennwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 2001-2002, gofynnodd y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes i Estyn gynnig cyngor ynghylch yr hyn y gall ysgolion ei wneud er mwyn cynnig gwell cyfleoedd dysgu. Mae'r papur yn adolygu arfer gorau mewn ysgolion yng Nghymru ac yn cyflwyno 'gweledigaeth' o'r hyn allai ysgolion yn y dyfodol fod, wrth i ni geisio sicrhau rhagoriaeth ar gyfer pob dysgwr. Mae'r papur yn archwilio tair elfen allweddol o rôl yr ysgol:

- **yr ysgol fel cymuned sy'n dysgu;**
- **yr ysgol yn gweithio yn y gymuned ehangach ac yn gweithio gyda'r gymuned ehangach; a'r**
- **ysgol fel cymuned hunan-feirniadol.**

Gobeithiwn y bydd y papur yn ysgogi trafodaeth ac yn herio ysgolion ac awdurdodau lleol i fod yn radical wrth iddynt gynllunio datblygiad yr ysgol yn y dyfodol.

### Moderneiddio ysgolion

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae ysgolion yng Nghymru wedi dangos gwelliannau amlwg yn ansawdd yr addysg a ddarperir ganddynt a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Gwelwyd gostyngiad dramatig yn nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol gydag ychydig yn unig neu ddim o gwbl i'w ddangos am eu 11 mlynedd o addysg orfodol o ran canlyniadau wedi'u hachredu. Caiff ysgolion yng Nghymru eu rheoli'n well nag oeddent yn cael eu rheoli yn y gorffennol. Ar y cyfan, maent yn gymunedau mwy gwâr hefyd o ran eu hethos. Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n well ac mae nifer o ysgolion yn fwy ymwybodol nag erioed o'r cyfrifoldeb sydd ar bob aelod o'r staff i ddatblygu llythrennedd, rhifedd a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion. Fel yn y gorffennol, mae gan athrawon rôl allweddol yn natblygiad personol a chymdeithasol eu disgyblion. Byddant hwy a staff eraill yn yr ysgol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wireddu gweledigaeth y Cynulliad o sicrhau bod ieuenctid Cymru yn ddinasyddion hyderus a gweithredol sy'n dangos medrau creadigol a mentergarwch, ynghyd â gofal deallus am bobl eraill a'r amgylchedd.

Mae newidiadau yn natur cyflogaeth – ac yn nyheadau gwleidyddion, rhieni a'r cyhoedd – yn golygu ein bod bellach yn disgwyl i bob disgybl bron gyflawni lefelau a gyflawnwyd gan y leiafrif o ddisgyblion a arferai fynd i ysgolion gramadeg yn ystod y degawdau wedi'r rhyfel. Mae lefelau o ran cyrhaeddiad yn genedlaethol, ac yn y mwyafrif o ysgolion, yn uwch nag erioed, ond er hyn mae'r bwlch rhwng perfformiad gwahanol ysgolion yn parhau mor fawr ag erioed. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchiad o wahaniaethau cymdeithasol-economaidd yn yr ardaloedd a wasanaethir gan ysgolion, ond mae ffactorau pwysig eraill ar waith hefyd.

Ceir gwahaniaethau mawr yn aml yng nghyflawniadau ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd tebyg – a fesurir o ran canlyniadau profion ac arholiadau a'r graddau a ddyfernir yn ystod arolygiadau Estyn. Ym mhob ysgol bron, ceir disgyblion sy'n colli diddordeb a chymhelliant ac nad ydynt yn parhau â'u haddysg. Ni all ysgolion fod yn atebol am holl broblemau cymdeithas. Er hyn, maent yn bartneriaid pwysig yn y dasg o ddelio ag anghydraddoldeb ac anfantais gymdeithasol – yn ogystal â chyfrannu at y gwaith o wella iechyd, gostwng nifer troseddau a chynnig y medrau y mae eu hangen ar gyflogwyr er mwyn cryfhau'r economi.

Mae ysgolion yn wynebu llawer her tebyg. Mae gofynion cenedlaethol a chwricwlwm cyffredin yn llywio llawer o'u gwaith. Ar yr un pryd, mae ysgolion yn gymunedau unigol a gwahanol. Mae'n iawn i lywodraethwyr, penaethiaid a staff, trwy weithio mewn partneriaeth â rhieni, awdurdodau lleol a'r gymuned, benderfynu sut y dylid cynnig yr hawl i fanteisio ar addysg o'r radd flaenaf i bawb. Dylai ysgolion gael mwy o reolaeth dros eu sefyllfa ariannol ynghyd â'r hawl i gynllunio eu cyllideb dros gyfnodau hwy os ydynt yn bwriadu cynllunio eu llwybr gwella eu hunain yng ngoleuni'r nodau, y gwerthoedd a'r amgylchiadau arbennig y maent yn gweithio ynddynt.

Er gwaethaf y gwahaniaethau rhwng ysgolion, gall arweinwyr ysgolion a staff ddysgu llawer iawn o brofiadau ei gilydd. Mae'r papur hwn yn ystyried llwyddiannau a gyflawnir gan yr ysgolion a arolygwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn arddangos arfer da mewn rhai pynciau unigol neu agweddau unigol ar eu gwaith. Ond er gwaethaf gwaith caled mwyafrif y staff, mae cyfran y rhagoriaeth a gofnodir yn ystod arolygiadau yn parhau'n fach – llai na 10% o'r dosbarthiadau a arolygir ledled y wlad fel arfer. Efallai fod teimlo'n hyderus yn yr hyn a fu'n effeithiol yn y gorffennol yn sicrhau bod y sefyllfa bresennol yn parhau, ond mae angen arweinwyr arnom hefyd sy'n medru meddwl mewn ffyrdd newydd er mwyn defnyddio amser ac adnoddau mewn ffyrdd mwy creadigol ac effeithiol. Nid yw hi'n debyg y bydd cynnig rhagor o'r un fath o addysg yn sicrhau digon o welliannau i fodloni'r disgwyliadau a'r dyheadau cynyddol a amlinellwyd uchod.

Gellir crynhoi llawer o'r hyn a nodir yn y papur hwn yn y syniad cyffredinol o 'foderneiddio ysgolion'. Pe byddem yn dechrau o'r dechrau i drefnu system i addysg plant a phobl ifanc, faint o'r nodweddion canlynol y byddem yn eu cynnwys yn ein hysgolion yn yr unfed ganrif ar hugain?

- oriau agor sy'n cyfateb i lai na 200 o ddyddiau mewn blwyddyn;
- blwyddyn waith wedi'i seilio ar y galw am lafur plant yn ystod blwyddyn amaethyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gydag amserlen hynod o brysur ar rai adegau o'r flwyddyn gan ddibynnu ar ddyddiad y Pasg;
- trefn anhyblyg gyda chyfnodau brig a chyfnodau tawel a achosir gan wyliau penodol a thymhorau o wahanol hyd;
- cylch gweithgaredd sy'n cychwyn ym mis Medi pan fo cyrff pobl yn dechrau arafu, yn hytrach nag yn y gwanwyn a fyddai'n fwy addas ar gyfer y cylchau cynllunio ac ariannu;

- cyfnodau dysgu sydd bron yn rhai safonol ar gyfer pynciau y mae'n fwy effeithiol eu dysgu mewn cyfnodau byrrach neu hwy;

- profion ac arholiadau i ddysgwyr am gyfnodau hir yn ystod rhan fwyaf braf a chynnes y flwyddyn ac a gynhelir mewn ystafelloedd lle nad oes system awyru;

- gofyn i bawb sy'n gweithio yn y sefydliad fod yno ar yr un amser yn union bob dydd, a chymryd gwyliau ar yr un adeg o'r flwyddyn yn union, er bod yn rhaid i rieni fynd â'u plant i ffwrdd ar adegau eraill oherwydd eu hamserlenni gwaith neu oherwydd rhesymau ariannol;

- colledion oherwydd gweithredu aneffeithlon a achosir trwy drefnu gwyliau hir i bawb yn ystod mis Gorffennaf/Awst, sy'n golygu bod dysgwyr wedi anghofio llawer o'r hyn a ddysgwyd a bod athrawon yn cymryd ychydig wythnosau i addasu i'r gwaith unwaith eto;

- un pwynt pontio lle mae plant yn symud o un athro/athrawes ar gyfer y rhan fwyaf o'r cwricwlwm i gael un ar ddeg o athrawon neu fwy ar gyfer gwahanol bynciau;

- addysgu'n bennaf mewn ystafelloedd sy'n llawn dodrefn ac sy'n cymryd yn ganiataol y bydd grwpiau mawr o ddysgwyr yn eistedd ac yn gwneud tasgau fel unigolion yn ystod y rhan fwyaf o'r dydd; a

- gwahanu addysg a hyfforddiant, gan roi statws is i hyfforddiant er y cydnabyddir bod addysg yn methu diwanu anghenion nifer o'n pobl ifanc.

Os yw ysgolion y dyfodol i gyflawni pob her a osodir gan y ganrif newydd, mae angen i'w dysgwyr wneud cyfraniad llawn i agenda foderneiddio sy'n debyg i'r agenda a bennwyd gan y llywodraeth ar gyfer cynnig gwasanaethau cyhoeddus, a'r arfer gorau sydd wrth wraidd gwasanaethau llwyddiannus yn y sector preifat. Bydd yn rhaid i hyn gynnwys yr elfennau canlynol o leiaf:

- pwyslais ar arwain effeithiol ar bob lefel mewn ysgolion;

- canolbwyntio'n fwy penodol ar fodloni anghenion 'cwsmeriaid': y dysgwyr, eu rhieni, eu cyflogwyr a'r gymuned ehangach;

- ymrwymiad i archwilio potensial llawn TGCh yn nysgu disgyblion;

- gwell dealltwriaeth o bob agwedd ar amrywiaeth a chyfle cyfartal, ac ymrwymiad i'r rhain;

- rôl newydd i athrawon fel rheolwyr ymysg grwpiau o oedolion, partneriaid a gwirfoddolwyr eraill, a phob un ohonynt â chyfraniad i'w wneud i waith yr ysgol;

- ystyried ysgolion fel sefydliadau dysgu sy'n rhoi blaenoriaeth i hyfforddi a datblygu'r holl bobl sy'n gweithio ynddynt;
- derbyn atebolrwydd a rôl ganolog rheoli perfformiad yn yr ymdrech i wella ysgolion; a
- mwy o annibyniaeth ariannol a gwell medrau gwella busnes.

## 2. Yr ysgol fel cymuned sy'n dysgu

### Canolbwyntio ar ddysgu

Mae ysgolion yn bodoli ar gyfer dysgwyr ac er mwyn dysgu. Nid yw hyn yn golygu y dylid ystyried popeth sy'n digwydd mewn ysgolion yn bethau sy'n paratoi ar gyfer yr hyn sy'n dod nesaf. Mae gan ysgolion - ynghyd â rhieni a gweddill y gymdeithas - gyfrifoldeb pwysig wrth helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolyn, dinasyddiaeth weithredol a byd gwaith. Ond mae ysgolion yn gymunedau lle mae pobl ifanc yn byw ac yn gweithio gyda'i gilydd ddydd ar ôl dydd, gan dyfu a datblygu. Er mwyn codi safonau ymhellach a sicrhau rhagoriaeth i bob dysgwr, rhaid i ni sicrhau bod ysgolion yn gymunedau sy'n dysgu, i'r disgyblion, y myfyrwyr a'r holl staff sy'n gweithio ynddynt.

Mae'n hawdd i'r sylw symud oddi ar ddysgu. Er hyn, mae gwaith ymchwil i effeithiolrwydd ysgolion wedi pwysleisio dro ar ôl tro bod ysgolion llwyddiannus yn sicrhau mai addysgu a dysgu yw eu prif weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys manteisio'n llawn ar yr amser dysgu sydd ar gael, yn ystod gwersi a thu allan i'r gwersi, creu amgylchedd dysgu trefnus a deniadol a datblygu ethos lle mae staff a disgyblion yn cynnal disgwyliadau uchel o ran cyflawniad.

Rhaid i arweinyddiaeth a rheoli amser ganolbwyntio ar ansawdd y dysgu sy'n digwydd yn y dosbarth a thu allan i'r dosbarth. Wrth gynllunio'u cyllidebau, mae angen i awdurdodau addysg lleol (AALl) ac ysgolion gyfleu mai dysgu yw'r brif flaenoriaeth, a chadw hyn wrth wraidd eu gwaith yn arfarnu eu llwyddiant. Er bod canlyniadau profion ac arholiadau yn parhau'n ddulliau pwysig i fesur perfformiad ysgol, rhan o'r stori yn unig yw hyn. Rhaid i ddisgyblion ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau fydd eu hangen arnynt yn ystod eu bywyd a'u hamser hamdden. Mae angen iddynt ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu hefyd, gan gynnwys y rhai a ddisgrifiwyd yn y 'Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol'[1]. Daw hyder o gael llwyddiant ym maes dysgu a thrwy gymryd rhan ym mywyd cymuned yr ysgol. Mae angen i ddisgyblion gael cyfleoedd i feistroli ystod eang o fedrau sy'n ymwneud â'r economi lleol a'r economi ehangach, a fydd yn eu gwneud yn fentrwyr hyderus ac yn weithwyr atyniadol.

[1] *Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol,* Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, 2000

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mwy a mwy o AALl ac ysgolion wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf yn eu rhaglenni datblygiad proffesiynol ar agweddau ynghylch sut mae disgyblion yn dysgu. Mae rhywfaint o hyfforddiant i athrawon wedi defnyddio gwaith sy'n seiliedig ar ymchwil i ddatblygiad gwybyddol mewn disgyblaethau pwnc arbennig. Mewn achosion eraill, defnyddir gwaith ymchwil mwy cyffredinol i fodelau dysgu er mwyn gwella cysondeb addysgu a chodi dyheadau athrawon. Bydd gwaith o'r fath yn aml yn cyd-fynd â chydnabod cryfderau dysgwyr - a'r angen i ddatblygu'r hyn a gyflawnwyd ganddynt yn ystod y cyfnod allweddol blaenorol mewn ffordd fwy effeithiol. Neges allweddol sy'n codi yn yr holl weithgaredd hwn yw bod angen sicrhau bod dysgu yn mynd yn llai adrannol. Mae angen i athrawon fod yn fwy ymwybodol o'r berthynas a'r cysylltiadau rhwng pynciau, yn enwedig trwy gyfrwng elfennau cyffredin megis medrau allweddol.

Mae angen i ddulliau gweithredu wrth addysgu ystyried y ffaith fod disgyblion yn dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd, a bod ganddynt hoff arddulliau dysgu sy'n effeithiol. Bydd ymrywiad gwirioneddol i roi statws cyfartal i lwybrau academaidd a llwybrau galwedigaethol ar gyfer disgyblion yn garw an ail-arfarnu'n sylfaenol i'r hyn a olygwn wrth gyrhaeddiad, a sicrhau agwedd ehangach tuag at asesu cyflawniadau disgyblion. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'w cyflawniadau personol a chymdeithasol, ac i'r dysgu sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol.

## Cydbwyso'r cwricwlwm

Er nad oes unrhyw gynnig wedi'i wneud yng Nghymru y dylai ysgolion symud tuag at statws mwy arbenigol, mae nifer o ysgolion yn cynnig darpariaeth arbenigol mewn un maes neu fwy. Mae rhai ysgolion cynradd wedi datblygu eu tiroedd, gan greu ardaloedd cadwraeth a gynlluniwyd i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth amgylcheddol disgyblion. Mae'r Fenter Technoleg mewn Ysgolion wedi darparu offer o safon diwydiant i nifer o ysgolion uwchradd er mwyn ymestyn cwmpas eu gwaith mewn meysydd megis dylunio a chynhyrchu gyda chymorth cyfrifiadur. Mae mentrau fel hyn wedi bod yn sail i ddatblygu rhagoriaeth. Mae angen i ysgolion ystyried anghenion ac amgylchiadau lleol yn fwy wrth ddatblygu eu cwricwlwm. Mae hyn wedi digwydd i raddau, er enghraifft, mewn ardaloedd yn y canolbarth lle mae ysgolion wedi bod yn canolbwyntio ar gyrsiau ym maes hamdden a thwristiaeth, ac yn y de-ddwyrain, lle mae prinder pobl ifanc medrus ym maes adeiladu, peirianneg, arlwyo a diwydiannau gwasanaethu eraill. Mae cyfle i ysgolion ddatblygu rhagoriaeth mewn meysydd eraill megis addysg gorfforol a chwaraeon, y celfyddydau, technoleg neu ieithoedd. Gall modelau rhagoriaeth ysbrydoli timau ac unigolion yn yr ysgol, a gellir cynnig yr arbenigedd a ddatblygir i ysgolion eraill yn yr ardal hefyd. Ar y cyfan, fodd bynnag, sicrhau rhagoriaeth ym mhob adran mewn ysgolion cymunedol, ddylai fod y brif nod.

Mae angen i'r dysgu a gynigiwn i ddisgyblion fod yn berthnasol ac yn heriol. Golyga hyn sicrhau cydbwysedd addas rhwng addysgu gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau ac agweddau. Mae'r gorchmynion diwygiedig ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol yn pwysleisio'r cwricwlwm ehangach sy'n sail i ddysgu pynciau yn ffurfiol. Gellir cyflawni'r 'gofynion cyffredin' hyn orau gydag ymrwymiad pob athro/athrawes i weithio'n gyson i ddatblygu ystod eang o fedrau dysgu a rhinweddau.

Yn ogystal â'r gofynion cyffredin hyn, mae fframweithiau wedi eu datblygu'n ddiweddar yn ymwneud â deg elfen mewn addysg bersonol a chymdeithasol a'r fframwaith ar gyfer addysg sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. Gyda'i gilydd, mae gan yr elfennau hyn y potensial i fywiogi, ymestyn a sicrhau bod llawer o'r gwaith a wneir gan y disgyblion yn yr ysgol yn berthnasol. Mae byd gwaith eisoes yn bwysig iawn yng ngwaith rhai ysgolion cynradd sydd wedi ffurfio cysylltiadau cynhyrchiol gyda busnesau a chyflogwyr lleol. I'r disgyblion ieuengaf, gall ymweliadau gan bobl sy'n gwneud gwahanol fathau o swyddi yn y gymuned a theithiau i archfarchnadoedd, ffermydd a busnesau eraill lleol ddarparu'r sail ar gyfer tasgau ymestynnol i'w cwblhau yn yr ysgol. Bydd cynllunio da ar gyfer yr elfennau hyn yn y cwricwlwm yn help i fodloni gofynion Deddf Addysg newydd 2002 er mwyn paratoi disgyblion ar gyfer 'cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau yn ddiweddarach yn eu bywydau'[2].

I ryw raddau, mae sicrhau cydbwysedd addas rhwng pynciau, medrau a datblygiad personol a chymdeithasol ehangach yn dasg haws mewn ysgolion cynradd. Mae athrawon uwchradd yn aml yn pryderu bod galw ychwanegol i addysgu medrau allweddol yn faich ar amser addysgu - neu yn golygu nad yw staff yn medru canolbwyntio'n llwyr ar eu prif orchwyl, sef addysgu pynciau. Fodd bynnag, mae gan bob athro/athrawes gyfrifoldeb i ddatblygu disgyblion a myfyrwyr fel dysgwyr. Ni ellir gwahanu datblygu medrau dysgu, neu'r hyn a elwir yn gynyddol yn 'ddysgu dysgu', ac addysgu pynciau yn dda.

## Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Bydd manteisio ar y datblygiadau technolegol diweddaraf er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i ddisgyblion, beth bynnag yw eu cefndir, yn her fawr i bob ysgol. Mae pob ysgol yn chwilio am ffyrdd effeithiol o addysgu gyda chymorth TGCh a chynllunio gweithgareddau sy'n golygu bod disgyblion yn defnyddio adnoddau aml-gyfrwng. Mae gennym lawer mwy o ddewis bellach ynghylch yr hyn i'w ddysgu, yn ogystal â sut a ble y caiff ei ddysgu. Er hyn, mae nifer o strwythurau dysgu ein hysgolion yr un fath ag y buont ers canrifoedd. Bydd posibiliadau dysgu o bell ac e-ddysgu yn peri i ni gwestiynu'r angen am fynychu safle ysgol bob dydd, neu fynychu adeilad arbennig ar amserau penodol. Bydd yn codi cwestiynau ynghylch rôl yr athro mewn byd sy'n dibynnu fwyfwy ar TGCh, ac ynghylch materion yn ymwneud â iechyd a diogelwch o ran defnyddio cyfrifiaduron a defnyddio gwefannau a meddalwedd.

Dylai'r ffaith fod cymaint o offer TGCh yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion am gyfnodau cymharol fyr bob dydd godi cwestiynau ynghylch hyd diwrnod ysgol traddodiadol. Mae rhagor o ysgolion yn defnyddio eu TGCh a chyfleusterau eraill fel adnodd cymunedol, gan groesawu oedolion sy'n dysgu yn ystod y dydd yn ogystal â'u croesawu gyda'r hwyr mewn dosbarthiadau nos. I raddau mwy cyfyngedig, mae ysgolion ar agor yn hwy er mwyn cynnig eu hadnoddau dysgu i ddisgyblion a myfyrwyr nad ydynt yn medru manteisio ar y rhain yn eu cartrefi.

[2] *Deddf Addysg 2002*

Mae nifer fach o ysgolion a darparwyr eraill, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig, wedi dechrau manteisio ar botensial TGCh wrth gynnig cyrsiau ôl-16 trwy gyfrwng trefniadau ar y cyd. Mae defnyddio e-bost, cynadledda fideo a phecynnau dysgu o bell yn cynnig manteision posib i ysgolion sydd â dosbarth chwech sydd yn ei chael hi'n anodd cynnig ystod eang o bynciau ar hyn o bryd. Gall defnyddio'r dulliau gweithredu hyn fod yn arwydd o symud o addysgu sefydliadol at ddatblygu rhwydweithiau rhagoriaeth a chymorth mewn rhai dosbarthiadau chwech.

Rydym yn byw fwyfwy mewn amgylchedd 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos. Er hyn, mae ysgolion, yn debyg iawn i nifer o'n gwasanaethau cyhoeddus, heb addasu ddigon i'r newidiadau hyn. Mae sefydliad yn America, sy'n enwog ar draws y byd, yn bwriadu cynnwys ei holl becynnau dysgu ar y Rhyngrwyd gan olygu eu bod ar gael i bori ynddynt. Ymhen ychydig flynyddoedd, efallai y byddwn yn gweld nifer o sefydliadau eraill yn gwneud yr un fath ac efallai bydd hyn yn peri i bobl gwestiynu'r syniad o ysgol yn fwy nag erioed. Bydd hefyd yn cwestiynu'r graddau y mae ysgolion yn delio â'r moderneiddio sy'n digwydd mewn meysydd hyfforddi eraill yn ogystal â byd gwaith. Dim ond dechrau ystyried goblygiadau TGCh yr ydym o ran trefnu ysgolion a chynnig addysg i ddisgyblion. Wrth gynllunio a datblygu dysgu, er enghraifft, bydd angen i ni ail-arfarnu'r cydbwysedd sy'n addas rhwng gwaith sy'n seiliedig ar gynnwys, cywain gwybodaeth a medrau arfarnu.

## Y cwricwlwm amgen

Defnyddir y term 'y cwricwlwm amgen' yn gynyddol wrth sôn am yr anfodlonrwydd â'r fwydlen gyffredin a ddarperir gan ysgolion. Gall hyn fod yn ymateb i ddiffyg perthnasedd a welir yn y gwaith a wneir gan rai grwpiau o ddisgyblion - gan gynnwys y rhai a ddisgrifir yn ddisgyblion talentog neu ddawnus. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr ysgolion a'r AALl cydnabyddir bod angen gwneud mwy i ddatblygu cyfres o ddulliau dysgu i ddelio â methiannau'r gorffennol. Dylid addasu dysgu i ddelio ag anghenion penodol disgyblion y mae dull gweithredu mwy ymarferol tuag at ddysgu yn debygol o fod yn fwy addas iddynt. Ar yr un pryd, dylem geisio datblygu ymhellach ein dealltwriaeth o'r ffordd mae plant yn dysgu er mwyn cymell a dal dychymyg dysgwyr o bob gallu.

Ar y cyfan, mae cwricwla amgen wedi canolbwyntio ar fodloni anghenion disgyblion anfodlon trwy gyfrwng cynlluniau sy'n seiliedig ar fyd gwaith a dewisiadau galwedigaethol megis y Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol, sy'n aml yn cael eu cynnig trwy gyfrwng trefniant gyda sefydliadau addysg bellach lleol. Mae rhaglenni eraill, megis rhai sy'n ymwneud â gweithwyr ieuenctid a chyflogwyr lleol, wedi canolbwyntio ar y cwricwlwm craidd, medrau sylfaenol a datblygu medrau personol a chymdeithasol disgyblion. Mae rhai rhaglenni yn defnyddio cynlluniau gwobrwyo ieuenctid a mathau eraill o achredu, er mwyn cydnabod cyflawniadau disgyblion yn ehangach nag sy'n bosib trwy gyfrwng cymwysterau TGAU.

I raddau helaeth, mae'r dulliau gweithredu hyn wedi bod yn rhai cydadferol. Heb os nac oni bai, maent wedi bod yn gostus ac yn aml yn fiwrocrataidd, oherwydd eu bod yn golygu bod ysgolion yn gorfod gwneud cais am arian arbennig o amrywiaeth o wahanol ffynonellau. Cydnabyddir fwyfwy y dylai ysgolion fod yn addasu cwricwlwm y brif ffrwd, a phan fo angen yn cynnig cwricwlwm mwy hyblyg ac ymatebol i fodloni anghenion pob disgybl. Yr unig ffordd o gyflawni hyn yn y dyfodol fydd nodi anghenion disgyblion yn well ac ymyrryd yn gynharach i fodloni'r anghenion hynny yng nghwricwlwm y brif ffrwd er mwyn osgoi colli pobl ifanc ar unrhyw adeg. Er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn medru manteisio ar y cwricwlwm, o ran eu hawl i'r cwricwlwm ffurfiol ac o ran cyfleoedd i ddysgu'n anffurfiol, bydd angen i ysgolion ddefnyddio ystod ehangach o staff ac adnoddau yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, gan gynnwys gwireddu potensial cymorth yn y dosbarth a TGCh.

## Dysgu y tu allan i'r ysgol

Caiff y term dysgu 'y tu allan i'r ysgol' ei ddefnyddio fwyfwy i ddisgrifio unrhyw weithgaredd dysgu sy'n digwydd y tu allan i oriau gwersi arferol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd dysgu ychwanegol, megis clybiau brecwast, clybiau gwaith cartref a chyrsiau adolygu. Mae ysgolion yn gyfarwydd â chynnig rhai gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion i gyd-fynd â dysgu yn y dosbarth, er mwyn gwella'u cymhelliant a'u mwynhad o'r gwaith ac er mwyn helpu'r rhai sydd â chyfleusterau cyfyng i astudio yn eu cartrefi. Os ydym yn dymuno cyflawni amcanion mwy heriol, dylai pob disgybl fod yn medru manteisio ar gyfleoedd dysgu sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r diwrnod ysgol traddodiadol. Mae hyn yn aml wedi bod yn nodwedd gref mewn ysgolion annibynnol. Mae angen cynllunio a threfnu anghenion dysgu y tu allan i'r ysgol mewn ffordd systematig os yw pob disgybl ym mynd i elwa. Yn y strwythur trefniadaethol cyfredol, mae hyn yn her sylweddol i ysgolion a gynhelir, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig lle mae disgyblion yn teithio ymhell i gyrraedd yr ysgol.

Fel rhan o waith radical i ail-arfarnu agweddau tuag at ddysgu, efallai y bydd angen i ysgolion ail-asesu eu hagwedd tuag at waith cartref a gweithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, er na fyddai unrhyw un yn gwadu bod gosod gwaith gartref yn elfen werthfawr o ddysgu disgyblion, mae gosod gwaith cartref na fydd ond cyfran o ddisgyblion yn medru ei gwblhau yn debygol o ehangu'r bwlch perfformiad rhwng y disgyblion sy'n cael cymorth gan eu rhieni a'r rhai nad ydynt yn cael cymorth gan eu rhieni. Bydd archwilio'r ystod o dasgau a osodir yn waith cartref a'u rhesymeg yn sicrhau bod cynifer o ddisgyblion ag y bo modd yn medru manteisio ar yr adnoddau a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i gwblhau tasgau yn llwyddiannus.

Mae gwaith diweddar ar ddysgu y tu allan i'r ysgol wedi nodi tri chategori o weithgareddau:

- galluogi - rhai a gynlluniwyd i atgyfnerthu medrau sylfaenol a medrau allweddol;
- ymestyn - rhai sy'n datblygu gweithgareddau yn y dosbarth, er enghraifft, trwy gyfrwng clybiau gwaith cartref, celfyddydau a gweithgareddau chwaraeon; a
- chyfoethogi - rhai sy'n cynnig cyfleoedd sy'n wahanol i'r cwricwlwm arferol (e.e. gwyddbwyll, dadlau, ffermio neu brosiectau gwyddor gwlad, gweithgareddau cymunedol).

Mae'r ymdrech y mae ei hangen i gynllunio a chynnig rhaglenni y tu allan i oriau ysgol arferol yn cael ei chydnabod yn yr arian ychwanegol sydd ar gael gan y Cynulliad Cenedlaethol i gefnogi dysgu o'r fath, a thrwy'r Loteri Cenedlaethol a sefydliadau megis Ymddiriedolaeth y Tywysog, 'Education Extra' ac eraill. Mae ysgolion sy'n buddsoddi'r amser mwyaf ac adnoddau eraill wrth gynnig dysgu y tu allan i'r ysgol, a hynny wedi'i gynllunio'n ofalus, yn elwa trwy weld gwell cymhelliant a pherthynas well rhwng y staff a'r disgyblion. Ceir effaith ar safonau cyrhaeddiad mewn lleoliadau mwy ffurfiol hefyd. Mae effaith y gweithgareddau hyn yn fwy pan fo ysgolion yn monitro cyfranogiad disgyblion ac yn annog pob disgybl i gymryd rhan.

Fodd bynnag, nid ymestyn y diwrnod trwy gyfrwng gweithgareddau ychwanegol yw'r unig ateb i gynllunio dysgu anffurfiol. Bydd yn golygu adolygu diben ysgolion mewn ffordd fwy radical, ac ystyried sut y medrir ymestyn cyfleoedd dysgu trwy weithio gydag amrywiaeth ehangach o bartneriaid o asiantaethau arbenigol a chymdeithasau gwirfoddol.

## Chwaraeon, y celfyddydau a gweithgareddau gwirfoddol

Mae nifer o bobl yn derbyn bod potensial i addysg gorfforol a'r celfyddydau, nid yn unig fel elfennau hanfodol yn y cwricwlwm, ond yn ogystal fel ffordd o ddatblygu medrau personol, cymdeithasol a dysgu hanfodol, gwerthoedd, agweddau a diddordebau sy'n cyfrannu at les, cymhelliant a phleser drwy gydol bywyd. Ar yr un pryd, mae athrawon a rhai y tu allan i'r ysgol yn cydnabod bod angen arbenigedd i gynnal gweithgareddau diwylliannol nad yw pob athro/athrawes dosbarth efallai yn meddu arni. Ar adegau prin yn unig y mae digon o amser neu gyfnodau digon hir ar gael yn y cwricwlwm arferol i wneud cyfiawnder ag amrywiaeth eang o chwaraeon a gweithgareddau, megis celf, cerddoriaeth, drama a dawns.

Mae ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yn ymateb i'r heriau hyn trwy ddarparu rhaglenni y tu allan i oriau ysgol, gwasanaethau athrawon teithiol a darparu timau, cerddorfeydd, corau a chyfleoedd eraill i berfformio ar lefel sir. Yng Nghymru, mae'r Urdd yn parhau i chwarae rhan unigryw trwy gynnig rhwydwaith i ddatblygu'r celfyddydau a fframwaith cystadleuol heriol i blant gymryd rhan a chyflawni rhagoriaeth. Er gwaethaf hyn, mae cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol y tu allan i oriau ysgol yn benderfyniad gwirfoddol, ac mae llawer o'r gwaith a wneir yn canolbwyntio ar nifer fach o gyfranwyr talentog a dawnus. Yr her y mae ysgolion yn ei wynebu - a phartneriaid posib yn y sector gwirfoddol a'r sector gwasanaethau ieuenctid - yw sut i gynyddu cyfranogiad.

Os yw chwaraeon a'r celfyddydau i fod yr un mor bwysig i bob plentyn a phob unigolyn ifanc, dylai ysgolion ystyried pa wersi y medrir eu dysgu o fodelau Ewropeaidd, ac o ysgolion preswyl ac ysgolion annibynnol, sy'n cychwyn y diwrnod dysgu lawer yn gynharach gan olygu felly bod y prynhawn yn hwy a bod sesiynau gyda'r hwyr ar gael hefyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol, drama, chwaraeon neu amrywiaeth o weithgareddau yn yr awyr agored. Mae sefydlu canolfannau arbenigol yn enghraifft o un dull gweithredu ar gyfer ychwanegu at yr hyn y mae ysgolion unigol yn medru ei gynnig. Mae rhai ysgolion wedi penderfynu prynu gwasanaeth hyfforddiant arbenigol neu gymorth proffesiynol ar gyfer cynyrchiadau ysgol pan nad oedd yr amser na'r arbenigedd angenrheidiol ar gael yn yr ysgol.

## Dysgu ac ymddygiad

Erbyn heddiw, mae ysgolion yn fwy bodlon i dderbyn y cyswllt agos sy'n bodoli rhwng ansawdd dysgu disgyblion a'u hymddygiad. Mae gwaith ymchwil, megis y gwaith a wnaethpwyd yn yr Alban yn ddiweddar[3], wedi dangos bod achosion o ymddygiad heriol difrifol yn brin. Mae'r rhan helaethaf o ymddygiad gwael sy'n cael effaith wael ar addysgu a dysgu yn ymwneud ag ymddygiad anodd ar lefel isel. Ar y cyfan, mae hyn yn cynnwys:

- galw atebion yn y dosbarth;
- siarad pan fydd yr athro/athrawes yn siarad;
- tynnu sylw disgyblion eraill a'u hatal rhag canolbwyntio;
- gwneud synau sy'n mynd ar nerfau pawb;
- cnoi gwm; a
- cherdded o gwmpas y dosbarth.

Mae effaith gronnus ymddygiad anodd ar lefel isel yn achosi straen ar staff a disgyblion. Er hyn, nid yw mwyafrif y disgyblion yn bwriadu tarfu; yn wir, mae nifer ohonynt yn aml yn oddefol yn y dosbarth ac yn osgoi ymddygiad a allai eu cael i drwbl. Ond nid yw disgyblion goddefol a disgyblion sy'n cydymffurfio yn dysgu'n effeithiol o reidrwydd. Mae disgyblion sy'n cael eu herio trwy gyfrwng tasgau ac sy'n brysur yn gwneud eu gwaith yn debygol o fod yn frwdfrydig am yr hyn a wnânt ac yn llai tueddol o fod yn draferthus.

[3] *Better Behaviour – Better Learning,* Adroddiad y Tasglu Disgyblaeth, Gweithgor yr Alban 2001

## Cau'r bwlch rhwng y ddau ryw

Am nifer o flynyddoedd, roedd hi'n ymddangos bod bechgyn yn perfformio'n well na merched mewn meysydd megis mathemateg a gwyddoniaeth. Yn fwy diweddar, ers cyflwyno Cwricwlwm Cenedlaethol safonol i fechgyn a merched, mae'r duedd hon wedi cael ei gwrthdroi yn amlwg. Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob maes yn y cwricwlwm bron - yn enwedig mewn pynciau ieithyddol a phynciau sy'n seiliedig ar ieithoedd. Nid oes un esboniad neu unrhyw esboniad syml dros hyn. Fodd bynnag, wrth geisio sicrhau cydraddoldeb i bawb, rhaid i ysgolion barhau i archwilio'r rhesymau dros y ffaith fod bechgyn yn tangyflawni ar hyn o bryd ac i geisio datblygu strategaethau a fydd yn ein galluogi i leihau'r bwlch mewn perfformiad gan barhau i wella perfformiad bechgyn a merched.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys meysydd y mae naill ai'r bechgyn neu'r merched yn tueddu osgoi. Er enghraifft, mae merched yn dal i dueddu peidio â dewis pynciau sy'n seiliedig ar dechnoleg yn ystod cyfnod allweddol 4 ac wedi hynny, ac nid oes llawer o fechgyn yn astudio'r celfyddydau a ieithoedd. Mae angen herio safbwyntiau ystrydebol a hen ffasiwn mewn perthynas â'r cwricwlwm er mwyn i ni allu manteisio'n llawn ar botensial pob dysgwr er mwyn bodloni anghenion medrau'r gymuned. Os ydym i wneud cynnydd ym maes cydraddoldeb rhwng y ddau ryw, mae angen i'r broses o herio ystrydebau gychwyn yn yr ysgol feithrin ac mewn dosbarthiadau babanod. Dylai hyn gynnwys archwiliad o gydbwysedd y gweithgareddau a wneir gan fechgyn a merched yn ystod sesiynau, ac o'r delweddau a'r ystrydebau mwyaf cyffredin a gyflwynir i blant ifanc, er enghraifft, yn y straeon y maent yn eu clywed ac yn eu darllen, y pynciau y maen nhw'n darllen amdanynt ac o ran y teganau, y gemau a'r dillad a ddefnyddiant wrth chwarae.

## Cymuned amlieithog

Mae materion arbennig yn bodoli yng Nghymru sy'n ymwneud â iaith a diwylliant. Mae angen i bob ysgol gael dealltwriaeth eglur o'u rôl wrth ddatblygu disgyblion yn ddysgwyr dwyieithog - yn unol ag anghenion a lefel gallu ieithyddol yr unigolion a'r grwpiau yn yr ysgol. Yn hanesyddol, nid yw gwledydd Prydain wedi dangos llwyddiant mawr o ran galluogi'r boblogaeth i feistroli ieithoedd ar wahân i'r Saesneg.

Ers cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol, rydym wedi sicrhau cynnydd mawr yn addysgu'r Gymraeg fel ail iaith i ddisgyblion iau. Fodd bynnag, bydd angen i ysgolion wneud llawer mwy os ydym i wireddu'r nod o greu cymdeithas ddwyieithog. Mae nifer o ddisgyblion yn penderfynu peidio â pharhau i gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd, a mwy fyth yn penderfynu gwneud hyn yn ystod eu cyfnod addysg a hyfforddiant ôl-16. Yn ogystal â chynnig 'llwybrau cyflym' i ddisgyblion hŷn sydd efallai'n dymuno cael addysg ddwyieithog, mae angen i bob ysgol, gan gynnwys y rhai sydd wedi ystyried eu bod yn ysgolion sy'n cynnig addysg drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, adolygu'r cyfleoedd a ddarperir ganddynt, neu'r cyfleoedd y medrent eu cynnig, er mwyn galluogi disgyblion i ddatblygu lefel eu cymhwyster yn y Gymraeg. Drwy hyn, gall ysgolion gyfrannu at ddatblygu darpariaeth barhaus yn y Gymraeg fel cam tuag at astudiaethau pellach, er enghraifft, yng nghyd-destun hyfforddiant galwedigaethol neu addysg i oedolion.

Ochr yn ochr â'r llwyddiant ym maes addysgu Cymraeg, gwelwyd gostyngiad parhaus yn nifer y disgyblion sy'n penderfynu astudio ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU a Lefel uwch. Mae hon yn duedd sy'n peri pryder â ninnau'n byw mewn Ewrop lle mae'r ffiniau cenedlaethol yn prysur ddiflannu, a lle ceir mwy o gyfleoedd i gynnal gweithgarwch economaidd ar draws y cyfandir cyfan. Mae angen i ysgolion adolygu'r ffordd y trefnir eu haddysg ieithyddol, yr oedran y caiff ei gyflwyno, ac mewn nifer o achosion, ymhortadau ynghylch a all disgyblion o bob gallu elwa o barhau i astudio ieithoedd. Mae angen i ysgolion ddenu rhagor o ddysgwyr i barhau â'u haddysg cyn-16 ac ôl-16 trwy gynnwys elfennau o astudio ieithoedd mewn rhaglenni galwedigaethol a sicrhau ei fod wrth wraidd cymhwyster sy'n debyg i Fagloriaeth.

Â ninnau'n byw mewn cymdeithas sy'n fwyfwy amlhiliol, mae'n peri pryder hefyd na chydnabyddir ieithoedd a siaredir gan gymunedau o'r Gymanwlad newydd neu o wledydd eraill sydd wedi ymgartrefi yng Nghymru, ac na chynigir addysg drwy gyfrwng yr ieithoedd hyn ychwaith. Os yw ysgolion i gyfrannu'n effeithiol i gymdeithas amlieithog go iawn yng Nghymru, mae angen i ni wneud mwy i gyflwyno disgyblion i dreftadaeth ieithyddol Cymru sy'n cynnwys dau ddiwylliant, a gwerthfawrogi a manteisio ar amrywiaeth ieithyddol gynyddol cymdeithas fodern yng Nghymru.

## Cynhwysedd a chynnig cymorth

Mewn gormod o achosion yn y gorffennol, mae ysgolion wedi tueddu i oddef neu hyd yn oed gyfiawnhau lefelau perfformio isel ar sawl na ellir disgwyl llawer gan ddisgyblion sy'n dod o ardaloedd newtuol neu sy'n perthyn i gefndiroedd newtuol. Mae'r ysgolion gorau wedi dangos manteision ymyrraeth gynnar i nodi'r rhwystrau dysgu a allai fod yn atal disgyblion unigol rhag gwneud cynnydd. Mae trafodaethau ar lefel ysgol ynghylch sut i gynnwys, cymell a chynnig cymorth i ddisgyblion sy'n ymddangos fel pe baent yn anfodlon, wedi arwain at lwyddiant. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd y broses yn cychwyn cyn i'r disgyblion symud i'r ysgol uwchradd.

Mae ysgolion yn ddigon ymwybodol o'r tensiwn sy'n bodoli wrth geisio darparu'r un hawl i bawb i gwricwlwm, gan geisio cynnig cymorth unigol ar yr un pryd sy'n bodloni anghenion dysgu eu holl ddisgyblion. Nid yw pob disgybl yn cychwyn o'r un man nac yn cael yr un manteision o ran cymorth economaidd neu gymorth teuluol. Mae cysyniad 'cynhwysedd' yn awgrymu bod angen defnyddio mwy o adnoddau i allu adnabod anghenion ac addasu rhaglenni'r cwricwlwm - ac arddull ddysgu - at ddiddordebau, medrau a galluoedd disgyblion. Wrth wraidd hyn mae derbyn bod angen amrywiaeth o ffyrdd ar bob disgybl er mwyn dysgu, nid y rhai sydd ag anghenion arbennig yn unig, a bod athrawon yn gyfrifol am ymateb i anghenion unigol ac amrywio eu dulliau gweithredu tuag at addysgu a dysgu mewn ffordd addas. Mae angen i ysgolion sicrhau gwell cydbwysedd rhwng addysgu rhyngweithiol sy'n cynnwys y dosbarth cyfan a chymorth a dysgu unigol. Os paratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd a heriau bywyd fel oedolyn yw'r nod, mae angen amgylchedd dysgu arnynt a fydd yn eu helpu i fod yn annibynnol, yn greadigol ac i weithio mewn timau a datrys problemau gyda'i gilydd.

Ar draws awdurdodau addysg lleol, dylai'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd er mwyn cynnig cymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig ganolbwyntio ar ysgolion y brif ffrwd pan fo modd. Caiff asesu anghenion disgyblion yn ystod proseslunio datganiad ei symleiddio o ganlyniad i'r Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd, ac mae cytundeb cyffredinol ar fanteision ymyrraeth gynharach. Gellid defnyddio'r wybodaeth arbenigol sydd ar gael mewn ysgolion arbennig ac unedau arbennig, ac yn y gwasanaethau anghenion addysgol arbennig a seicoleg addysgol, mewn ffordd fwy effeithiol fel adnodd. Gallai staff sydd â medrau arbenigol ddelio'n gyntaf â'r disgyblion sydd â'r anghenion dysgu mwyaf arbenigol neu fwyaf difrifol. Gallai staff anghenion addysgol arbennig gael eu defnyddio'n ehangach yn ysgolion y brif ffrwd hefyd fel ffynhonnell cyngor proffesiynol gan gynnig cymorth a datblygu arbenigedd pob aelod o'r staff. Os yw ysgolion y dyfodol i fod yn hollol gynhwysol, rhaid gosod y nod o gynllunio cwricwlwm sy'n bodloni anghenion dysgwyr unigol, yn hytrach na'u cynnwys yn y ddarpariaeth fwyaf addas sydd ar gael. Yn arbennig, bydd angen mwy o hyfforddiant ar staff y brif ffrwd yn ystod llawn y strategaethau ar gyfer delio ag anghenion arbennig, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rheoli a chynnig cymorth i ddisgyblion a all fod ag ymddygiad heriol.

## Dysgu gydol oes a byd gwaith

Yn draddodiadol, mae ysgolion uwchradd wedi darparu ar gyfer yr ystod llawn o ddisgyblion o bob gallu nes byddant yn 16 oed, ond ac eithrio cyflwyno nifer fach o gyrsiau galwedigaethol, mae addysg chweched dosbarth mewn ysgolion wedi canolbwyntio ar y rhai sy'n dewis dilyn llwybrau academaidd i addysg uwch. Dylai ysgolion, a'r rhai sy'n arfarnu eu perfformiad, ganolbwyntio'n fwy ar lwybr disgyblion wedi iddynt adael yr ysgol wrth fesur llwyddiant, a rhoi mwy o ofal i sefydlu parhad a dilyniant yn y cwricwlwm ôl-16. Mae gormod o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed yn wynebu cyfnod o ansicrwydd, ac yn gwneud penderfyniadau annoeth a newid cyfeiriad yn ddiangen. Mae angen i ysgolion weithio'n agosach gyda Gyrfaoedd Cymru a'u partneriaid yn y sector addysg bellach a hyfforddiant yn y gwaith er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn symud yn hwylus i'r addysg ôl-16 neu'r llwybr hyfforddiant mwyaf addas ar eu cyfer.

Mae'r mathau o swyddi sydd ar gael i bobl ifanc yn dibynnu ar dderbyn addysg ehangach, ennill mwy o gymwysterau a chyrraedd safonau uwch nag yn y gorffennol. Mae pob athro/athrawes yn rhannu cyfrifoldeb dros roi dimensiwn galwedigaethol i'r gwaith yn eu pynciau. Mae'r broses hon yn cychwyn yn dda yn yr ysgolion meithrin a'r ysgolion cynradd gorau sy'n defnyddio'r gymuned leol a chyflogwyr lleol yn rheolaidd fel adnodd yn y cwricwlwm. Mewn ysgolion uwchradd, tueddir i ystyried mai cyfnod byr o brofiad gwaith yw ystyr addysg yn ymwneud â byd gwaith, ac un o gyfrifoldebau nifer fach o arbenigwyr galwedigaethol, neu'n hytrach yn un elfen mewn ABCh. Mae byd gwaith yn gofyn am lawer mwy o hyblygrwydd a hyder nag y mae disgyblion yn ei ddatblygu ar hyn o bryd trwy eu haddysg ffurfiol. Mae angen cyfleoedd ar bobl ifanc i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu medrau newydd trwy gydol eu bywyd gwaith.

# 3. Yr ysgol yn y gymuned

## Addysg a gofal

I'r dysgwyr ieuengaf, mae mynychu dosbarthiadau meithrin neu grwpiau chwarae yn cynrychioli'r cam cyntaf i'r gymuned ehangach y tu allan i'r teulu. Yn ystod y blynyddoedd cynnar ni fedrir gwahanu'r cyfrifoldeb dros ofalu am ddiogelwch, gwarchodaeth a gofal plant oddi wrth y cyfrifoldeb dros eu dysgu. Mae angen i iechyd a lles plant fod yn un o ragamodau dysgu effeithiol wrth gynllunio cwricwlwm sylfaenol arbennig ar gyfer disgyblion 3-7 oed yng Nghymru. Mae bodloni gofynion plant o ran eu datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol yr un mor bwysig â bodloni eu hangen am dwf ac ysgogiad deallusol. Efallai y bydd dysgu o fodelau addysg blynyddoedd cynnar mewn gwledydd eraill, sy'n ystyried mai pwrpas cwricwlwm y blynyddoedd cynnar yw paratoad ar gyfer addysg ffurfiol, olygu y rhoddir mwy o bwyslais ar ddatblygiad corfforol a chymdeithasol nag a wneir mewn nifer o'n dosbarthiadau meithrin. Er mwyn sicrhau dull gweithredu mwy holistaidd tuag at ddysgu cynnar, bydd angen i ysgolion gydweithio'n agosach nag erioed gyda rhieni a phartneriaid eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol.

## Dysgu yn y teulu

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae ysgolion wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o'r ffaith eu bod yn atebol i rieni, yn enwedig yng nghyd-destun niferoedd sy'n gostwng a chystadleuaeth am ddisgyblion. Ar yr un pryd, mae nifer o ysgolion yn ystyried yn gadarnhaol y cyfraniad y gall partneriaeth gyda rhieni ei wneud i ymestyn a gwella dysgu disgyblion. Yn draddodiadol, mae ysgolion meithrin ac ysgolion babanod, lle'r mae'r cyswllt rhwng y teulu a'r athrawon yn rhan o'r drefn ddyddiol yn aml, wedi arwain y ffordd yn hyn o beth, gan gynnig rhagor o gyfleoedd anffurfiol i greu cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r ysgolion meithrin gorau yn aml yn manteisio ar dasgau rhwng y cartref a'r ysgol, yn seiliedig ar lyfrgelloedd benthyca sy'n cynnwys llyfrau wedi'u graddio, gemau rhifau, teganau a deunyddiau dysgu deniadol eraill, er mwyn cynnwys rhieni yn llawn yn y cwricwlwm.

Mae cyflwyno cytundebau dysgu rhwng y cartref a'r ysgol yn gam ychwanegol yn y cyfeiriad hwn. Mae tystiolaeth bod mwy o ysgolion uwchradd ac adrannau yn cymryd camau i esbonio i rieni yr hyn y maent yn ceisio'i gyflawni ym mhynciau'r cwricwlwm yn ystod pob cyfnod allweddol. Trwy gyhoeddi crynodebau o gynlluniau gwaith ynghyd â phrif amcanion dysgu mewn iaith syml, mae ysgolion yn dechrau cynnwys rhieni yn y broses o gefnogi dysg eu plant yn yr ysgol. Y gŵyn feunyddiol am adroddiadau ysgol i rieni fu nad ydynt yn cyfeirio ddigon at gyflawniadau go iawn disgyblion, ac nad ydynt yn cynnwys targedau dysgu penodol i'r disgyblion anelu atynt os dymunant wella, nid nad ydynt yn cynnwys digon o fanylion am brofiadau disgyblion. Mae angen i'r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio nodau dysgu fod yn hawdd i'w deall er mwyn i'r rhieni allu annog a chynnig cymorth i'w plant.

## Gweithio gydag ysgolion partner

Mae nifer yn ystyried mai'r model delfrydol o addysg cynradd-uwchradd mewn ardal arbennig yw grŵp o ysgolion cynradd sydd â chyswllt agos gydag un ysgol uwchradd. Er mai dyma'r patrwm arferol mewn nifer o gymunedau gwledig a chymunedau yn y cymoedd, mae'r berthynas rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd mewn ardaloedd trefol yn parhau'n gymhleth oherwydd dewisiadau rhieni. Mewn rhai ardaloedd, gall darpariaeth enwadol a dwyieithog gynnig dewisiadau pellach i ddisgyblion a'u rhieni ynghylch pa ysgol i'w plant fynychu'n 11 oed. Gan weithio yn y gwahanol gyd-destunau hyn, mae gan ysgolion drefniadau gweinyddol a bugeiliol da, ar y cyfan, er mwyn sicrhau bod y pontio yn llyfn wrth i ddisgyblion symud o addysg gynradd i addysg uwchradd. Mae'r ysgolion dan sylw yn ceisio sefydlu rhywfaint o barhad hefyd yn y gwaith a wnaiff disgyblion yn ystod Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7, er nad yw pob ysgol yn llwyddo cystal â'i gilydd yn hyn o beth.

Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn frwdfrydig ynghylch symud i'r ysgol uwchradd ac yn edrych ymlaen. Er hyn, mae'r newidiadau a achosir gan y trawsnewid hwn yn aml yn sylweddol ac yn sydyn o ran eu heffaith ar ddysgu disgyblion. Gwelir bwlch cynyddol yn ystod y cyfnod rhwng Blwyddyn 7 a Blwyddyn 9 o ran perfformiad gwahanol ddisgyblion, ynghyd â gostyngiad mewn cynnydd a cholli hunan-hyder ymysg grŵp sylweddol o ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd.

Mae ysgolion yn ceisio goresgyn effeithiau niweidiol y cyfnod o bontio trwy hyrwyddo cydweithio rhwng staff mewn ysgolion partner. Ceir nifer o enghreifftiau o arfer da, er enghraifft, wrth gynllunio cynlluniau gwaith ar y cyd neu brosiectau ac aseiniadau unigol, ymweliadau gan ddisgyblion Blwyddyn 6 ag ysgolion uwchradd a fydd yn eu derbyn, gan gynnwys teithiau a gwersi 'rhagflas' mewn amrywiaeth o bynciau. Mae rhai grwpiau o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynllunio rhaglenni dysgu ar y cyd hefyd, neu'n rhyddhau aelodau unigol o'r staff i weithio gydag athrawon yn y cyfnod arall, er bod y strategaethau hyn yn tueddu i fod yn llai cyffredin.

Er hyn, ychydig y mae ysgolion wedi gwneud rhyw lawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf i sicrhau mai graddol yw'r trawsnewid o gael cwricwlwm a addysgir gan un athro/athrawes yn bennaf, gyda chyfraniad gan arbenigwyr o bryd i'w gilydd ar gyfer cerddoriaeth, Cymraeg neu addysg gorfforol, i un a gyflwynir fesul pwnc gan gynifer â 14 o athrawon yn ystod cyfnodau o 1-2 wythnos. Mae angen i ysgolion cynradd ac uwchradd wneud mwy i ddelio â'r diffyg dilyniant posibl o ran arddull dysgu a achosir gan y cyfnod pontio, a sicrhau bod dulliau gweithredu wrth addysgu, ynghyd â disgwyliadau athrawon, yn ystyried y wybodaeth a'r medrau sydd gan ddisgyblion ar ddechrau pob cyfnod.

Yn bwysicaf oll efallai, dylai ysgolion ystyried datblygu rôl tiwtor dosbarth Blwyddyn 7 i adlewyrchu, o leiaf i ryw raddau, rôl yr athro/athrawes dosbarth cynradd. Byddai darparu amser ychwanegol i diwtoriaid dosbarth uwchradd dreulio gyda'u dosbarthiadau yn ystod yr wythnos yn eu galluogi i arsylwi cynnydd y disgyblion mewn amrywiaeth o bynciau a gallu adnabod problemau posibl. Gallai cynnig cymorth unigol i ddisgyblion sy'n cael trafferthion yn gynnar fod yn enghraifft o fuddsoddiad da o ran atal tangyflawniad neu ddelio ag anfodlonrwydd yn ddiweddarach. Byddai strategaeth o'r fath yn rhoi gwybodaeth fanylach i diwtoriaid dosbarth am gryfderau a gwendidau unigol. Byddai'n sail dda ar gyfer cynnwys rhieni yn y broses o adolygu cynnydd disgyblion a gosod amcanion dysgu ar gyfer y dyfodol.

## Dulliau gweithredu aml-asiantaeth

Mae nifer o ysgolion sy'n gwasanaethu dalgylchoedd heriol yn cynnig hafan i ddisgyblion, cymuned ddiogel a threfnus mewn amgylchedd ehangach sy'n medru bod yn fygythiol, yn dorcalonnus ac yn ddryslyd o ran negeseuon cymysg sy'n cael eu cyfleu ynghylch gwerth dysgu. Ni chyflawnir yr ethos cadarnhaol hwn heb ymdrech ac ymrwymiad i les disgyblion. Ond mewn nifer o'r ysgolion hyn, mae arolygwyr yn gweld bod athrawon yn goddef safonau cyflawniad sy'n gymedrol ar y gorau. Wrth eu herio, mae athrawon yn aml yn rhoi'r rheswm y byddai'n afrealistig, neu hyd yn oed yn annheg, disgwyl rhagor gan blant sy'n dod o 'ardal fel hon'. Neu efallai yr honnir bod cyrhaeddiad disgyblion yn adlewyrchu eu hoedran darllen isel a'u sgoriau isel mewn profion cyn cychwyn, yr ystyrir eu bod yn rhagolygon cadarn o'u cyrhaeddiad yn y dyfodol. Yn aml, nid yw disgyblion sydd â chyrhaeddiad isel a medrau sylfaenol gwael yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ac maent yn fwyaf tebygol o beidio â mynychu'r ysgol o gwbl. Mae angen i ysgolion ddod o hyd i ffyrdd newydd o nodi a chynnig cymorth i'r dysgwyr hyn, a chydweithio â nhw a'u teuluoedd er mwyn codi eu disgwyliadau o'r hyn y medrant ei gyflawni.

Gallwn ddysgu gwersi o fentrau diweddar i achub disgyblion sy'n ymddieithrio o ddysgu, sef grwpiau o bobl ifanc ym mwyafrif yr ysgolion uwchradd y mae'r Athro Barber yn eu disgrifio fel 'yr anfodlon, y rhai siomedig a'r rhai sydd wedi diflannu'[4]. Mewn nifer o ardaloedd, rhoddir mwy o gydnabyddiaeth bod rhwystrau dysgu yn aml-ddimensiwn - ac mai dim ond hyn a hyn o effaith y gall athrawon sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ei chael o ran eu goresgyn. Mewn llawer o ardaloedd yn y DU, efallai'n fwyaf amlwg yn yr Alban ond mewn rhannau o Gymru hefyd, gwelir adfywiad yn y diddordeb yn y syniad o ysgolion a cholegau cymunedol.

[4] *The Learning Game,* Michael Barber, Victor Gollancz 1996

Er bod union fodelau'r ddarpariaeth gymunedol yn amrywio o fan i fan, mae'r rhan fwyaf yn cytuno y byddai dysgwyr a'u teuluoedd yn elwa o wasanaethau integredig gwell a chymorth gan amrywiaeth o asiantaethau er mwyn manteisio'n llawn ar gyflawniad addysgol. Mae'r modelau mwyaf effeithiol o ddarpariaeth gymunedol yn cynnwys timau o athrawon, gweithwyr iechyd a phersonél o wasanaethau cymdeithasol, cymunedol ac ieuenctid. Mae partneriaid posibl eraill yn cynnwys y timau iechyd meddwl lleol a'r timau lleol sy'n delio â'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau, mentrau i ostwng troseddu, heddlu cymunedol a gweithgarwch sy'n ceisio gostwng nifer y merched yn eu harddegau sy'n beichiogi.

Er mwyn sicrhau bod mentrau aml-asiantaeth yn llwyddo, mae angen diffinio'n glir rôlau a chyfrifoldebau'r staff sy'n cymryd rhan gan ganolbwyntio ar fodloni anghenion dysgwyr a'u teuluoedd. Mae manteision posibl sylweddol lle y medrir lleoli gwasanaethau yn yr un man gan gynnig meithrinfeydd a gwasanaethau gofal am blant eraill. Bydd angen i ysgolion weithio gyda'u hawdurdodau lleol i ystyried rôl y gallant ei gyflawni yn rhaglen y Cynulliad ar Gymunedau'n Gyntaf er mwyn helpu i ddelio ag anfodlonrwydd lleol ag addysg.

Mae llawer o waith da wedi cael ei wneud eisoes, er enghraifft, gan y prosiectau a ariennir drwy'r Fenter Mynediad i'r Ifanc a'r Bartneriaeth Ysgolion a Gwaith Ieuenctid. Mae nifer o'r rhain wedi cynnwys gweithio mewn partneriaeth gan ddangos yr hyn y medrir ei gyflawni pan fydd ysgolion yn cydweithio â gweithwyr ieuenctid, y sector Addysg Bellach (AB), cyflogwyr ac asiantaethau gwirfoddol i ddelio ag anfodlonrwydd ac ymddieithrio. Mewn nifer o achosion, rhoddwyd pwyslais ar helpu pobl ifanc trwy roi'r hyder a'r medrau angenrheidiol iddynt ddychwelyd i ddysgu a symud ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant yn y gwaith. Mae angen i ysgolion cynradd ac uwchradd wella'r ffordd y maent yn nodi anghenion disgyblion sydd mewn perygl lawer yn gynharach ac addasu cwricwlwm y brif ffrwd a dulliau addysgu er mwyn cynnal eu diddordeb a'u cynnydd.

## Y gymuned fel adnodd

Yn ogystal â rhieni a chyflogwyr, mae'r gymuned lle y lleolir yr ysgol yn cynnig ystod o bartneriaid eraill sydd yr un mor werthfawr. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, yr heddlu, y gwasanaeth tân, grwpiau amgylcheddol ac ystod o gymdeithasau gwirfoddol a chymdeithasu eraill sy'n fodlon gweithio gydag ysgolion a chyfrannu i'r cwricwlwm. Mewn ysgolion cynradd, mae athrawon yn aml yn ymwybodol o gyfleoedd a ddarperir gan safle'r ysgol a'r ardal o'i chwmpas i archwilio agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol ar y cwricwlwm. Mae gweithio gyda phartneriaid megis siopau a busnesau lleol yn gofyn am ymdrech benodol i gynllunio natur y cydweithio a sicrhau bod eu mewnbwn yn cyd-fynd â nodau, amcanion ac ethos yr ysgol. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, er enghraifft, ceir nifer o glybiau chwaraeon sy'n awyddus i ennyn diddordeb ac i hyfforddi plant a phobl ifanc. Mae artistiaid a cherddorion proffesiynol ar gael, a phobl sydd â medrau ym maes celf a chrefft, sy'n medru cyfrannu at y gwaith a wneir yn y celfyddydau ac ym maes technoleg. Gall rhieni, perthnasau ac unigolion eraill fod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer hanes llafar, byw. Mae eglwysi ac aelodau eraill o gymunedau crefyddol ar gael sy'n cynnig cyfle i ddysgu am gredoau byw a thraddodiadau diwylliannol.

## Ysgol ar gyfer y gymuned

Os yw ysgolion i lwyddo i gymell a chynnig cymorth i'r disgyblion hynny sy'n tangyflawni ar hyn o bryd, neu sydd mewn perygl o adael eu haddysg a'u hyfforddiant, maent yn debyg o fod yn fwyaf effeithiol os gallant ddylanwadu ar ddiwylliant ehangach y cymunedau a wasanaethant. Gallai hyn olygu bod yr ysgol yn darpari cyfleoedd addysgol i rieni ac oedolion eraill yn y gymuned. Mae ysgolion sydd â lle dros ben yn arbennig o addas i ddatblygu darpariaeth gymunedol yn ystod y dydd. Mae gan bob ysgol y potensial i gael ei defnyddio fel canolfannau addysg i oedolion ac addysg gymunedol ar ôl oriau arferol yr ysgol.

Mae'r cyswllt rhwng staff yr ysgol a'r rhieni yn cynnig cyfle i ddenu oedolion at ddiwylliant o ddysgu, er enghraifft, trwy gynnig gweithgareddau sy'n gwella medrau yn ymwneud â bod yn rhiant. Mae ymwelwyr iechyd, gweithwyr cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref a swyddogion lles addysgiadol yn ymweld â chartrefi. Gellir ymestyn y rôl hon, nid yn unig er mwyn nodi anghenion plant, ond hefyd, i gysylltu ag oedolion mewn teuluoedd a fyddai'n medru elwa o gyfleoedd i ddysgu medrau sylfaenol. Gall dysgu o'r fath ar gyfer y teulu fod yn gam cyntaf tuag at addysg bellach neu gael gwaith. Mae ysgolion sydd wedi bod yn hynod o lwyddiannus ym maes datblygu dimensiwn cymunedol wedi archwilio ffyrdd i gynnig cyfleusterau meithrinfa neu ddarparu gofal ac addysg feithrin ar y safle. Ceir enghreifftiau o ysgolion uwchradd mewn rhai ardaloedd trefol yng Nghymru sydd wedi cydweithio â sefydliadau addysg bellach cyfagos i ddatblygu cwricwlwm galwedigaethol cynhwysfawr. Mewn un achos, mae cynifer â mil o oedolion wedi cofrestru ar gyrsiau ar y safle yn ystod yr wythnos, ac yn eu mynychu. Mewn llawer mwy o achosion, mae oedolion yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol i ddilyn cyrsiau sy'n ymwneud â medrau TGCh yn ystod y dydd ac ar ôl oriau ysgol.

Mae gan ysgolion mewn ardaloedd dan anfantais lawer i'w ennill o ddatblygu eu hunain yn adnodd addysg gymunedol. Trwy gyfrannu at lwyddiant oedolion sy'n dysgu yn y gymuned, mae ganddynt y potensial i ddelio ag enghreifftiau o fethiant addysgiadol sy'n effeithio ar lawer cenhedlaeth yn yr un teuluoedd. Trwy helpu i adennill hyder yng ngwerth cyfleoedd addysgol i oedolion, gallant ddechrau dadwneud patrymau absenoldeb awdurdodedig a sicrhau cefnogaeth rhieni fel partneriaid yn nysg eu plant.

## 4. Yr ysgol fel cymuned hunan-feirniadol

### Arwain: gweledigaeth a gwerthoedd

Yr ysgolion sydd fwyaf effeithiol ym maes hunan-arfarnu yw ysgolion sy'n gwybod lle maent arni ar hyn o bryd, ac yn gwybod yr hyn sydd i'w gyflawni a sut i wneud hynny. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn sefydliadau trefnus, ac yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, caiff yr ysgolion sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf eu harwain â gweledigaeth, maent yn dilyn trwydd clir, ac maent yn rhannu a chan rannu gwerthoedd ynghylch sut y byddant yn cydweithio. Mae gwerthoedd cytûn a dealltwriaeth gyffredin o'r math o le yr hoffent i'w hysgol fod yn sail i waith staff yr ysgol a'u partneriaid.

Er mwyn i ysgolion fod yn effeithiol, nid yw'n hanfodol iddynt ganolbwyntio'n barhaus ar weithredu arloesol. Ceir enghreifftiau o ysgolion arloesol sydd wedi gwneud cynnydd dramatig, weithiau mewn sefyllfaoedd anodd a heriol. Mae ysgolion eraill sydd wedi cyflawni a chynnal lefelau perfformiad uchel trwy wneud pethau syml yn dda, drwy ddisgwyliadau athrawon ohonynt eu hunain ac o'u disgyblion fod yn gyson a thrwy ddyfalbarhau â'r gwaith o weithredu strategaethau y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, gall yr ysgolion gorau hyd yn oed geisio darganfod ffyrdd newydd o herio disgyblion a staff. Gellir cyflawni hyn pan fydd arweinyddiaeth yn llwyddo i sicrhau diwylliant o wella parhaus, gydag ymrwymiad i gynnig amodau gwaith da ac hyfforddi a datblygu pobl.

Er mwyn bod yn hollol effeithiol, mae angen i arweinwyr ysgolion reoli perfformiad eu staff mewn ffordd fwy systematig nag yn y gorffennol, yn ogystal â chymell ac ysbrydoli. Rhaid seilio'r gwaith o reoli perfformiad ar gylch gosod amcanion ar gyfer unigolion, timau ac adrannau, gan gynnal adolygiadau rheolaidd sy'n seiliedig ar feini prawf a gytunwyd. Er bod nifer o'r ymdrechion cynharach i arfarnu staff mewn ffordd systematig wedi arwain at drafferthion, mae ysgolion yn dechrau ar gyfnod newydd o reoli perfformiad. Bydd llawer yn dibynnu ar lwyddiant arweinwyr a rheolwyr i ddatblygu diwylliant hunan-feirniadol a sefydlu systemau effeithiol er mwyn arfarnu a rheoli perfformiad. Bydd angen ffurfio cyswllt eglur rhwng rheoli perfformiad a strategaethau yn ymwneud â hyfforddiant a datblygiad staff yn barhaus. Ni ddylai hyfforddiant cychwynnol, datblygiad a dilyniant gyrfa fod ar gael i athrawon yn unig, ond yn yr un modd i gynorthwywyr meithrin a dysgu, goruchwylwyr, hyfforddwyr a staff eraill sydd eisoes â swyddogaethau mwyfwy dylanwadol mewn ysgolion.

## Yr ysgol hunan-gyfeiriol

Wrth bennu eu blaenoriaethau, bydd angen i ysgolion barhau i sicrhau cydbwysedd addas rhwng polisïau Cenedlaethol rhai lleol ar y naill law, a'r dymuniad i ddelio ag anghenion sy'n codi o'u hamgylchiadau arbennig ar y llaw arall. Mae sicrhau cyfraniad llywodraethwyr yn hyn o beth yn parhau'n hanfodol, a bydd ymdrechion y rhai sy'n ymwneud â recriwtio a hyfforddi llywodraethwyr yn ddylanwadol wrth helpu ysgolion i ymateb i'r agenda wella genedlaethol. Ar yr un pryd, mae gan lywodraethwyr rôl allweddol i fodloni anghenion y gymuned lle lleolir yr ysgol trwy ystyried ei chymeriad cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a ieithyddol.

Mae rôl newidiol AALl wedi hyrwyddo annibyniaeth trwy fwy o ddatganoli cyllid a newid gwasanaethau fel eu bod yn herio a darparu cynhaliaeth yn hytrach nag ysgwyddo cyfrifoldebau a rheoli uniongyrchol. Mae'r cylch blynyddol o adolygu, gosod targedau, monitro ac arfarnu wedi'i hen sefydlu mewn ysgolion. Ceir perthynas agosach rhwng cyllidebau ysgolion a blaenoriaethau i wella, a glustnodir mewn cynlluniau datblygu ysgol. Er mwyn gwneud cynnydd sylweddol pellach, bydd angen i ysgolion ddatblygu strategaethau mwy hir dymor i sicrhau gwelliant ar sail cyllidebau y medir dibynnu arnynt am fwy na blwyddyn ar y tro. Nid yw'r system bresennol yn hwyluso cynllunio hir dymor, ac yn fwy aml na pheidio mae'n peri i ysgolion danwario neu gadw cronfeydd helaeth wrth gefn yn hytrach na delio ag anghenion penodedig.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn awr yn pennu fframwaith ar gyfer partneriaeth yn awr er mwyn dwyn ynghyd bawb sy'n ymwneud â chynnig gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Dyma'r seiliau y bydd angen i ysgolion ddiffinio eu cenhadaeth arbennig arnynt a'u strategaethau yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth er mwyn cynnig cymorth i ddysgwyr a'u teuluoedd. Er na fydd pob ysgol yn dewis diffinio eu hunain yn benodol fel 'ysgolion cymunedol', bydd angen i bob ysgol gael dealltwriaeth glir o'u cyfraniad unigryw i fentrau lleol er mwyn delio â phobl dan anfantais a hyrwyddo cyfle cyfartal, cynhwysedd a chynaladwyedd.

Bydd angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lunio polisïau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol ddatblygu mecanweithiau mwy effeithiol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ysgolion sydd â'r angen mwyaf. Nid yw'r ffordd y bydd ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf di-freintiedig yng Nghymru yn medru chwarae rôl allweddol mewn prosiectau ehangach yn ymwneud ag adfywio economaidd a chymunedol yn ddigon eglur eto. Er bod llwybrau ariannu ar gael yn aml i brosiectau sy'n ymwneud â gwahanol agweddau ar ddatblygiad cymunedol, gall gwneud cais am y rhain wastraffu amser staff. Yn yr achosion gwaethaf, gall staffio ar gyfer prosiectau tymor byr - waeth pa mor dda yw'r amcanion a fwriedir - arwain at ansefydlogrwydd ym maes darparu gwasanaethau craidd. Ar y llaw arall, ni all ysgolion mewn ardaloedd anodd ddisgwyl elwa'n awtomatig o fformiwlâu ariannu gwahaniaethol heb fod yn atebol am wella canlyniadau dros gyfnod penodol o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol.

## Adolygu adnoddau dynol

Fel mewn pob sefydliad, y prif adnodd sydd ar gael i unrhyw ysgol yw ei phobl. Felly, mae angen i reoli effeithiol gychwyn trwy ail-arfarnu rôl athrawon ac aelodau eraill o staff yr ysgol a chyfraniad posibl y grwpiau hynny, megis gweinyddwyr a chynorthwywyr cefnogi dysg, sy'n gweithio gyda'r athrawon. Mae ysgolion yn dechrau manteisio mwy ar weinyddwyr cymwys sydd â swyddogaethau ariannwr i fod yn gyfrifol am gynllunio a datblygu cyllid, personél, adeiladau ac eiddo. Gall hyn ryddhau aelodau eraill o'r staff uwch i ganolbwyntio ar safonau ac ansawdd y cwricwlwm, dysgu ac addysgu.

Gall cynorthwywyr cefnogi fod dysgu yn adnodd gwerthfawr, nid yn unig ym maes cynnig cymorth i ddisgyblion meithrin a iau a'r rhai sydd ag anabledd corfforol neu anghenion dysgu arbennig, ond yn holl ddosbarthiadau'r brif ffrwd hefyd. Er hyn, nid ydynt yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bob amser. Yn y cyd-destun hwn, byddai'n ddefnyddiol i ysgolion ail-arfarnu gwaith y gweinyddesau meithrin, y technegwyr a'r staff TGCh sy'n gweithio yn yr ysgol eisoes er mwyn iddynt fedru gwneud cyfraniad mwy ffurfiol tuag at addysgu a goruchwylio dysgu disgyblion. Un fantais amlwg o hyn hwyrach fyddai darparu amser i ffwrdd o'r dosbarth yn rheolaidd i athrawon mewn ysgolion cynradd.

Dylid cael mwy o gysondeb ar draws AALl ynghylch tâl ac amodau gwaith staff nad ydynt yn addysgu, a chynllunio datblygiad staff ar gyfer cynorthwywyr cefnogi dysgu ac eraill i ymestyn eu harbenigedd, gyda'r dewis o symud ymlaen i statws hyfforddwyr, neu pan fo hynny'n addas, i statws athro/athrawes cymwys. O ystyried cyfraniad presennol nifer o staff profiadol, megis gweinyddesau meithrin a thechnegwyr TGCh, ni ellir cyfiawnhau y gwahaniaeth mawr sy'n bodoli rhwng cyflog athrawon, hyfforddwyr a grwpiau eraill o'r staff ar hyn o bryd.

Os derbyniwn fod y rhwystrau sy'n atal pobl rhag dysgu yn cynnwys ffactorau megis iechyd, cymorth cymdeithasol a theuluol, yna gall personél o ystod eang o wasanaethau craidd, ac eraill o'r sector gwirfoddol, chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ehangu cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant. Wrth geisio codi disgwyliadau pobl o ddysgu yn y gymuned, ni ellir disgwyl i athrawon wneud popeth sy'n angenrheidiol i wella lefelau medrau. Mae angen i ni ddeall rôl arbennig athrawon a'r medrau arbennig sydd ganddynt i'w gyfrannu, er enghraifft, wrth gynllunio, trefnu ac asesu dysgu disgyblion. Nid yw hyn yn tanseilio rôl athrawon, ond yn hytrach yn eu galluogi i ddefnyddio'r medrau sydd ganddynt yn y ffordd orau.

Mae partneriaid allweddol o'r tu allan i'r ysgol, sydd â llawer i'w gynnig o ran y cwricwlwm a chymorth i ddysgwyr, yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, yr heddlu, y gwasanaeth ieuenctid a gweithwyr cymunedol. Mae gan ysgolion lawer i'w ennill o fedrau arbenigol cynghorwyr, therapyddion, gweithwyr chwaraeon ac eraill sy'n medru cynghori a chynnig cymorth i blant nad oes ganddynt lawer o hyder neu ddelwedd dda ohonynt eu hunain. Gall hyn fod o fudd i ddisgyblion sy'n ei chael hi'n anodd rheoli eu hymddygiad, yn ogystal â'r rhai y mae angen cymorth arnynt i ymdopi â chael eu pryfocio neu eu herlid yn yr ysgol neu'r tu hwnt.

## Hunan-arfarnu

Bydd angen i ysgolion y dyfodol felly fod hyd yn oed yn fwy hyderus ynghylch sut y maent yn arfarnu eu heffeithiolrwydd. Mae rhai ysgolion eisoes yn defnyddio fframwaith ansawdd cytûn a ddatblygwyd gyda'u staff eu hunain, gan ddefnyddio gwybodaeth gyd-destunol a ddarparwyd genedlaethol a thrwy gyfrwng gwasanaethau'r awdurdod addysg lleol. Bydd hyn yn dod yn fwyfwy cyffredin. Bydd angen i fframwaith yr ysgol ar gyfer arfarnu ansawdd gyd-fynd yn fwy â fframweithiau cydnabyddedig eraill er mwyn barnu safonau, megis y rhai sy'n gysylltiedig â'r safon Buddsoddwyr Mewn Pobl, y model Rhagoriaeth ym Myd Busnes a'r fframweithiau arolygu allanol.

Mae adroddiadau arolwg Estyn ynghylch hunan-arfarnu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd[5] yn tynnu sylw at hyder cynyddol uwch reolwyr yn adolygu gwaith eu hysgolion. Mae'r datblygiadau gan ysgolion yng Nghymru ym maes hunan-arfarnu dros y degawd diwethaf wedi bod ym maes cynllunio datblygiad yn bennaf, ac o ran y trefniadau i fonitro ac adolygu ansawdd a safonau, ac yn y defnydd o ddata i osod a monitro targedau. Mae'r pwyslais ar wella canlyniadau arholiadau a phrofion, a phresenoldeb, yn naturiol wedi canolbwyntio sylw ar ddangosyddion meintiol o berfformiad yn y meysydd hyn, ac mae hyn i'w ddisgwyl. Mae gan ysgolion yng Nghymru ragor o waith i'w wneud o ran nodi amcanion sy'n ymwneud â'r agweddau mwy ansoddol o ethos yr ysgol, ac asesu bodlonrwydd disgyblion a rhieni ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

## Gwrando ar blant a phobl ifanc

Mae canolbwyntio ar blant a phobl ifanc wrth drefnu'r gwasanaethau y byddant yn eu defnyddio yn golygu eu cynnwys yn fwy effeithiol yn y broses o arfarnu'r gwasanaethau hynny. Bydd hyn yn her i ysgolion oherwydd nad ydynt yn gyffredinol yn llwyddo i ofyn barn plant a phobl ifanc ynghylch yr hyn a ddarperir gan yr ysgol. Mae angen i ddisgyblion ddysgu medrau ymgynghoriad, mynegi eu barn ac esbonio'u safbwyntiau. Mae'r niferoedd siomedig o bobl sy'n dewis pleidleisio mewn etholiadau lleol a chenedlaethol yn awgrymu bod llai a llai o bobl ifanc yn penderfynu bod yn gyfrifol am ddewis arweinwyr a chynnal ein system ddemocrataidd. Mae angen i ysgolion wneud llawer mwy i gasglu barn disgyblion ynghylch eu profiadau dysgu, er enghraifft, trwy gyfrwng cynghorau ysgol ystyrlon a fforymau eraill. Mae angen i ysgolion sicrhau bod y strwythurau hyn yn galluogi disgyblion i fynegi eu safbwyntiau a'u bod yn cael cymorth i ddatblygu eu hyder a'u medrau er mwyn cyfrannu'n effeithiol.

---

[5] *Pa mor dda rydym yn ei wneud? Arolwg o waith hunan-arfarnu mewn ysgolion uwchradd,* Estyn 1999
*Hunan-arfarnu mewn ysgolion cynradd: Ychwanegu gwerth a gwneud gwahaniaeth,* Estyn 2001

Ni fydd gwneud y newidiadau angenrheidiol i wireddu hyn yng Nghymru yn hawdd, ond mae penodi Comisiynydd Plant i Gymru yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn awyddus i wrando ar bobl ifanc. Rhaid i ysgolion fod yn barod i wrando ar eu disgyblion. Mae gwersi a ddysgwyd yn ddiweddar, er enghraifft, yn Ymchwiliad Waterhouse, yn mynnu hyn. Mae oedolion weithiau wedi methu gwrando'n ddigon gofalus ar gyhuddiadau yn ymwneud â bwlio neu gam-drin. Rydym wedi gosod rhai o'r plant sydd fwyaf agored i niwed mewn lleoliadau a sefydliadau lle cawsant eu niweidio ymhellach. Rhaid i ysgolion y dyfodol ystyried sut y bydd oedolion yn gwrando ar yr hyn y mae dysgwyr yn ei ddweud a bod yn barod am fwy o archwilio a yw'r strwythurau cywir yn bodoli ai peidio, a pha mor effeithiol ydynt.

Os byddwn yn gwrando ar ddisgyblion, rhaid i ni fod yn barod i glywed rhai negeseuon caled, ac mae'n rhaid i ni fod yn siŵr fod y safbwyntiau a gawn yn gynrychioliadol. Bydd yn rhaid i ni ofyn barn y disgyblion llai rhugl, sydd efallai dan anfantais, sydd â diffyg hyder ac nad ydynt yn siŵr ynghylch eu cyfeiriad, yn ogystal â'r bobl ifanc rhugl ac ymroddedig sy'n debygol o gael gyrfaoedd proffesiynol. Mae'r pwyslais ar ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn hanfodol os ydym yn dymuno creu cymdeithas sy'n cyfuno parch tuag at yr unigolyn gyda disgwyliad o gyfrifoldeb cymdeithasol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i ysgolion roi'r cyfle i blant gymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch eu hysgolion o'r oedran cynharaf posib.

## Hunan-asesu ac arolygu yn y dyfodol

Er 1992, mae arolygwyr wedi rhoi mwy a mwy o sylw i effeithiolrwydd prosesau'r ysgol ynghylch hunan-arfarnu ac ansawdd eu cynlluniau i sicrhau gwelliant. Mae cynigion Estyn ar gyfer y cylch arolygu nesaf yn seiliedig ar y gred y dylai hunan-arfarnu ac arolygu fod yn brosesau sy'n ategu ei gilydd. Dylai adroddiad hunan-asesiad y darparwr fod yn fan cychwyn i'r arolygiad allanol, y sail ar gyfer archwilio ei drefniadau ynghylch rheoli ansawdd a chadarnhau ei farn ei hun. Os yw hunan-arfarniad ysgol i fod yn ddigon cadarn i fod yn sail arolygiad, bydd angen i ysgolion fod mor hyderus yn nodi eu diffygion a'r meysydd i'w datblygu ag ydynt ar hyn o bryd yn nodi eu cryfderau.

Bydd angen i ysgolion wella'r ffordd y maent yn gosod amcanion yng ngoleuni'r adborth a gânt gan eu cwsmeriaid a'u budd-ddeiliaid. Bydd angen iddynt fesur pa mor dda y maent yn ymateb i ddymuniadau a phryderon a fynegir gan addysgwyr, rhieni a staff, gan ystyried safbwyntiau'r lleiafrifoedd amrywiol sy'n rhan o boblogaeth yr ysgolion a'u cymunedau lleol. Wrth geisio mesur ansawdd, mae angen i'r rhan fwyaf o ysgolion ymestyn eu trefniadau i gynnwys agweddau cymdeithasol ac agweddau eraill ar fywyd ysgol mewn ffordd mor systematig ag y maent yn mesur perfformiad academaidd ar hyn o bryd. Bydd enghreifftiau o hyn yn cynnwys graddfa cyfranogiad disgyblion mewn cyfleoedd dysgu allgyrsiol a thu allan i oriau ysgol. Bydd angen i arweinwyr ysgol hefyd ganolbwyntio eu harfarniadau yn ofalus ar ymateb staff, cyflogwyr a'r gymuned a wasanaethant.

## 5. Torri'r patrwm

A ni ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, yr her i ysgolion yw sicrhau rhagoriaeth i bob dysgwr a gosod sylfaen i ddysgu gydol oes. Bydd angen i ysgolion roi sylw i ddatblygu agweddau tuag at ddysgu - gan effeithio ar natur dysgwyr a datblygu eu medrau dysgu - yn ogystal â chynnig cyfarwyddyd ffurfiol. Rhaid i ddisgyblion o bob cymuned allu cyrraedd y safonau uchaf o fewn eu cyrraedd, ac addasu a thrawsnewid y cymunedau a'r gymdeithas y byddant yn byw ynddi. Rhaid i addysg helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion effeithiol yng Nghymru, mewn Ewrop sy'n datblygu'n fwyfwy agored ac yn y byd ehangach.

Fel rhan o'r her hon, efallai y bydd angen i ni gydnabod nad yw'r ffyrdd traddodiadol o weithio a strwythuro'n hysgolion a'r amser a dreuliwn ynddynt - rai ohonynt wedi'u codi ganrifoedd yn ôl - yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Yn ystod y degawd nesaf, efallai y bydd rhieni disgyblion sy'n cychwyn ar eu haddysg yn yr ysgolion mwyaf arloesol yn methu adnabod yr hyn sy'n digwydd yno mewn perthynas â'u profiadau nhw yn yr ysgol. Yn yr adran olaf hon, byddwn yn ystyried goblygiadau rhai o'r prif newidiadau a drafodwyd yn y papur hwn yn ymwneud â'r:

- diwrnod ysgol traddodiadol a phatrwm y flwyddyn academaidd;
- natur dysgu;
- y personél sy'n gweithio ym myd addysg; a'r
- ffordd o arwain a rheoli ysgolion.

### Trefn y dydd

Yn gyffredinol, mae'r diwrnod ysgol ffurfiol yn fyr iawn. Mewn ysgolion cynradd a uwchradd, tarfir ar ddysgu disgyblion yn gyson. Mae'n amlwg bod y diwrnod cynhwysfawr yn yr ysgol uwchradd - gyda'i batrwm o gynnig cyfnodau ar gyfer pob pwnc - yn golygu bod pobl ifanc yn gorfod stopio a chychwyn gweithio, newid pynciau a gwastraffu llawer o amser yn symud o gwmpas campws yr ysgol. Gall disgyblion sy'n symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ei chael hi'n anodd addasu i wahanol ddulliau addysgu gwahanol a disgwyliadau gwahanol athrawon a staff eraill o ran disgyblaeth ac ymddygiad. Yn ogystal â gwastraffu amser dysgu a'r diffyg dilyniant sy'n codi, mae'r patrwm hwn, ynghyd â'r egwyl a'r cyfnod cinio, yn rhoi cyfleoedd niferus disgyblion fod yn hwyr, achosi ffwdan a chwarae triwant.

Mae angen i ysgolion, AALl a'r rhai sy'n gyfrifol am lunio polisïau:

- archwilio ffyrdd o strwythuro'r diwrnod ysgol mewn ffordd sy'n fwyfwy hyblyg; a

- chynnig cyfleoedd dysgu sydd ar gael i bob disgybl, rhiant ac oedolyn arall yn y gymuned yn ystod y dydd, gyda'r hwyr ac ar benwythnosau.

## Trefnu, strwythuro a darparu adnoddau ar gyfer y flwyddyn ysgol

Mae patrwm y flwyddyn tri thymor yn briodol iawn wedi cael ei archwilio mewn nifer o awdurdodau lleol mewn rhannau o'r DU. Nid yw cychwyn y flwyddyn academaidd yn yr hydref, o'i chymharu â'r flwyddyn ariannol neu'r flwyddyn galendr, a chael gwyliau haf hir lle mae disgyblion yn ei chael hi'n anodd cynnal momentwm eu dysgu, yn nodweddion defnyddiol yn y patrwm traddodiadol. Mae angen trafodaeth genedlaethol radical ar y gwaith o drefnu a strwythuro a darparu adnoddau ar gyfer y flwyddyn ysgol.

Dylai AALl ac ysgolion:

- gydweithio trwy arbrofi â gwahanol strwythurau ar gyfer y flwyddyn ysgol o ran addysgu, asesu a chynllunio ariannol.

## Dysgu ffurfiol ac anffurfiol

Gydag eraill sy'n gofalu am blant a phobl ifanc, mae ysgolion yn rhannu'r cyfrifoldeb dros eu hiechyd, eu diogelwch, eu gwarchodaeth a'u lles. Mae cyhoeddi fframweithiau ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn ddiweddar, ac ar gyfer addysg yn ymwneud â byd gwaith ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed, wedi helpu i ffurfioli cyfrifoldeb ysgolion i gynnig addysg eang i blant a phobl ifanc. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i'r agweddau hyn fod wrth wraidd y gwaith o addysgu disgyblaethau a medrau pwnc traddodiadol, a chyd-fynd â nhw. Bydd angen i ysgolion yn y dyfodol archwilio diffiniadau traddodiadol o ddysgu, yr hyn a osodir fel gwaith cartref fel arfer a'r hyn a ystyrir yn ddysgu anffurfiol neu ddysgu y tu allan i'r ysgol.

Dylai ysgolion:

- ddatblygu polisïau a strategaethau eglur ynghylch addysgu disgyblion i feddwl cydweithio a datrys problemau;
- ystyried cynllun traddodiadol ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd eraill yn yr ysgol er mwyn manteisio'n llawn ar ddefnyddio TGCh yn nysgu disgyblion;
- ymgorffori strategaeth TGCh er mwyn ymestyn a chynnwys e-ddysgu mewn rhagor o raglenni confensiynol;
- llunio a rheoli rhaglen ategol o ddysgu anffurfiol a dysgu y tu allan i'r ysgol sy'n adeiladu ar addysgu yn y dosbarth ac yn ei gyfoethogi; ac
- adolygu posibilrwydd cynnwys rhieni a chynnig cwricwlwm i ddysgwyr sy'n oedolion.

## Gweithio gyda phartneriaid

Mae’r rhwystrau sy’n atal pobl rhag dysgu a’r heriau sy’n gysylltiedig â’u goresgyn yn aml yn golygu y bydd ysgolion yn cael trafferth i wneud gwelliannau parhaus os byddant yn penderfynu ‘mentro ar eu pen eu hunain’. Mae pen draw i’r hyn y mae ysgolion yn medru ei gyflawni trwy gynnig mwy o’r un fath. Dylai ysgolion ofyn am gymorth ystod llawer ehangach o bartneriaid i gefnogi dysgu disgyblion.

Dylai cyrff llywodraethwyr, uwch reolwyr a staff:

- greu cyfleoedd i gynnwys rhieni i raddau mwy wrth gynllunio, cefnogi ac adolygu dysgu disgyblion;
- adolygu rôl a chyfraniad posib pob aelod o’r staff llawn amser a rhan amser sy’n cyfrannu at y gwaith a wneir yn ein hysgolion;
- ail-strwythuro’r trefniadau staffio er mwyn galluogi dilyniant trwy wahanol fath o swyddi;
- cynllunio i fanteisio ar gymorth ystod ehangach o bartneriaid arbenigol yn nysgu disgyblion; a
- phennu strwythurau i athrawon ysgol gydweithio’n agosach â staff sy’n gweithio i’r gwasanaethau craidd, sef iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg gymunedol a’r sector gwirfoddol er mwyn bodloni anghenion dysgwyr a’u teuluoedd mewn ffordd fwy effeithiol.

## Arwain a rheoli ysgolion

Dylai datblygiadau ym maes ariannu ysgolion sicrhau bod ysgolion yn fwy annibynnol a’u galluogi i gynllunio ymhellach ymlaen. Law yn llaw â hyn, rhaid i gyrff llywodraethwyr a phenaethiaid fod yn barod i dderbyn lefelau atebolrwydd uwch am ganlyniadau eu perfformiad. Mae rhai ysgolion unigol wedi bod yn flaengar yn sicrhau cyllid trwy gyfrwng partneriaethau, neu drwy wneud cais am arian i gymryd rhan mewn prosiectau lluosog. Gall rheolaeth ysgolion elwa’n sylweddol o fedrau busnes gwell. Fodd bynnag, dylid defnyddio’r medrau hyn i gefnogi prif bwrpasau arwain a rheoli, sef gwella dysgu a hyrwyddo gwaith yr ysgol yn ei chymuned.

Mae angen i’r rhai sy’n arwain ac yn rheoli ysgolion:

- sefydlu diwylliant mewn ysgolion sy’n seiliedig ar ddarparu gwasanaethau sy’n gwella’n barhaus ac sy’n ymateb i anghenion dysgwyr a chwsmeriaid eraill;
- sicrhau bod arweinyddiaeth ar bob lefel yn canolbwyntio ar hyrwyddo cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynaladwyedd y mentrau a gyflwynir ganddynt;

- annog ymrwymiad pob aelod o'r staff i hunan-arfarnu rheolaidd fel sail i'r gwaith o wella ysgolion;

- sicrhau bod rheoli perfformiad unigolion a thimau wrth wraidd y ffordd y rheolir ysgolion; a

- chysylltu rheoli perfformiad â hyfforddiant a datblygiad parhaus ar gyfer pob gweithiwr yn yr ysgol, gyda chyfle i ennill cymwysterau achrededig a datblygiad gyrfa.

## Rhagoriaeth i bob dysgwr

Mae pob dysgwr yn haeddu'r un hawl i ragoriaeth o ran ansawdd y ddarpariaeth addysgol a chyfle cyfartal i fwynhau cwricwlwm cyfoethog a llawn yn y dosbarth a thu allan. Nid yw cyfle cyfartal o reidrwydd yn golygu cynnig yr un ddarpariaeth i bawb, ond mae'n golygu canolbwyntio'n fwy ar fodloni anghenion unigol. O ran rhagoriaeth, mae ansawdd yr amgylchedd dysgu yn ffactor pwysig a dylanwadol - i'r disgyblion a'r staff sy'n gweithio yn ein hysgolion.

Mae disgyblion yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd a nodwedd yr addysgu mwyaf effeithiol yw cydbwysedd o ddulliau ynghyd â sensitifrwydd i anghenion unigol. Mae canfyddiadau arolygiadau yn awgrymu nad yw rhagoriaeth yn y dosbarth o reidrwydd yn gysylltiedig â mentrau pwysig, ond yn hytrach, mae'n bodoli lle mae'r gwaith wedi'i gynllunio'n ofalus, yn ddiddorol ac yn bleserus, gan herio disgwyliadau ac yn cael ei asesu mewn ffordd ystyriol a defnyddiol. Caiff ansawdd y dysgu ei adlewyrchu'n aml yn y ffordd y mae athrawon yn gofyn cwestiynau ac yn defnyddio iaith i brocio dealltwriaeth disgyblion. Mae dysgu effeithiol yn datblygu'r hyn y mae disgyblion yn ei wybod eisoes a'r hyn y gallant ei wneud. Mae'n eu helpu i symud o gysyniadau syml i rai mwy cymhleth a strategaethau gwybgddol. mae dyfgu'i cael ei ddatblygu a'i atgyfnerthu aru fai gaiff disgyblion gyfleoedd ymeurferol i a chael cyfleoedd ymarferol i ddefnyddio'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau mewn ystod o gyd–destunau: i gyfathrebu â chynulleidfaoedd, cynllunio profion ac atebion a datrys problemau go iawn.

O ran eu potensial unigol eu hunain, gan pob disgybl gyflawni rhagoriaeth. O ran cyrhaeddiad, er bod yna lefelau cymhwyso sylfaenol y dylai pob dysgwr anelu atynt, mae rhagoriaeth yn derm perthynol. I'r plentyn neu'r unigolyn ifanc sydd â thrafferthion dysgu difrifol, gall cymryd camau bach o ran dysgu neu gyfathrebu neu o ran rheoli eu hunain olygu ymdrech arwrol a chyflawniad rhagorol. I'r gwrthwyneb, mewn rhai ysgolion lle mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn rhagori ar y dangosyddion perfformiad traddodiadol, gall nifer o blant fod yn gwneud gwaith sy'n gymharol hawdd iddynt, ac o ganlyniad mae eu cyflawniadau yn gymedrol o ystyried eu botensial gwir.

Er mwyn cyflawni rhagoriaeth, dylai pob ysgol:

- gynyddu ymwybyddiaeth o amrywiaeth anghenion, diddordebau a galluoedd sydd gan ddisgyblion a datblygu strategaethau i ddelio â'r rhain;

- codi lefel yr her mewn addysgu dyddiol a chodi disgwyliadau ynghylch yr hyn y dylai disgyblion o bob lefel gallu ei gyflawni;

- pennu diffiniadau ehangach o gyrhaeddiad sy'n adlewyrchu'r cynnydd personol a chymdeithasol a wneir gan ddysgwyr, ynghyd â'u medrau allweddol a'u dysgu;  a

- pharhau i ddefnyddio data perthnasol er mwyn adolygu cynnydd disgyblion unigol a gosod targedau cyraeddadwy a heriol.

Diben nifer o'r materion a godir yn y papur hwn yw annog trofodaeth bellach mewn ysgolion a sefydliadau eraill.  Mae natur newidiadau yn y system addysg yn aml wedi digwydd yn dameidiog fesul tipyn a'r cynnydd yn araf.  Mae rhai o nodweddion y ddarpariaeth addysgol a drafodwyd wedi aros bron yn ddigyfnewid ar ôl degawdau o ddatblygiadau.  Gall gweithredu arloesol gynnig gwell cyfleoedd i ddysgwyr a gwelliannau sylweddol o ran ansawdd.  Mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gyfrifol am llunwyr polisïau, awdurdodau lleol ac ysgolion yn ystyried y newidiadau y mae angen eu gwneud er mwyn gwireddu gweledigaeth o ragoriaeth ar gyfer ysgolion yng Nghymru a fydd o fudd i genedlaethau o ddysgwyr y dyfodol.